Merched y Wawr Cangen Bethel mywbethel.org

# Adroddiad Cyfarfod 10:04:24 Meira Evans

**Croeso a Chyfrachion**

Croesawyd llond y neuadd fach i'n cyfarfod mis Ebrill gan ein llywydd Jen, a braf oedd gweld cynifer wedi troi i mewn.

Anfonwyd cofion  a gwellhad buan at Eryl Roberts  sydd wedi cael codwm ac wedi torri ei phelfis ac asgwrn yn ei chlun. Cofion  hefyd at Anwylyd Jones sydd wedi cael triniaeth ar ei llaw ac ddim yn cael dreifio ar hyn o bryd.Roedd hi'n braf gweld Rhian Hughes yn gwella ar ôl cael triniaeth yn ddiweddar, gan ddymuno Penblwydd Hapus arbennig iddi wythnos nesaf. Fe fydd Mair Read hefyd yn dathlu penblwydd arbennig ddiwedd y mis ac yn derbyn yr un cyfarchion. Anfonwyd ein cydymdeimlad at  Glenys Griffiths, a fu'n aelod blaenllaw o'r gangen am flynyddoedd cyn symud i Dde Cymru, sydd wedi colli ei gwr, Siencyn. Anfonwn ein cydymdeimlad ati hi ac i Aled a Dewi a'u teuluoedd.

**O'r Rhanbarth**

- Bydd bowlio 10  yn cael ei gynnal Nos Iau 16eg  Mai – a gobeithir y bydd tîm neu ddau  ar gael i gynrychioli'rgangen
- Noson  Celf a Chrefft – Bydd y noson ar gyfer y rhanbarth a chyfeillion yn cael  ei gynnal yn Neuadd Tregarth  Nos Wener 10fed  Mai – pryd y  bydd cystadeluaeth Radi  Thomas yn cael  ei beirniadu,  a chyfle i weld gwaith aelodau'r canghennau. Gwraig Wâdd y noson  fydd Anna Pritchard sydd yn ddylunudd tecstiliau wedi arbennigo mewn gwehyddu.

**Ethol Swyddogion 2024-2025**

Llywydd – Liz Watkin | Is-lywydd – Anita Owen

Ysgrifennydd – Gwenan Roberts | Is-ysgrifennydd – Anne Elis

Trysorydd – Gwyneth Jones | Is-drysorydd – Mair Read

**Pwyllgor**

Mary Wyn Jones    Deilwen Hughes    Anne Lewis

Gwyneth Roberts    Alys Jones    Gwen James

**Gwraig Wadd – Meira Evans**

Ein gwraig wadd oedd ein hysgrifennydd Meira Evans, sydd ar ôl ymddeol wedi dechrau busnes bach 'Gwlan y Bwthyn' ac yn mynd o amgylch ffeiriau crefft o bryd i'w gilydd.

Cawsom sgwrs hamddenol ar ei thaith at winio, gweu a chrosio gan ddechrau drwy gael ei dysgu gan ei mam ar yr aelwyd y Llanberis. Disgrifiodd ei hun yn eneth fach ,yn gwneud llanast, yn datod ac yn gwylltio - gan ddweud fod hynny yn wers dda mewn bywyd wrth i ni orfod datod ac ail ddechrau pan fydd pethau yn mynd o'i le. Roedd yna atgof ynghlwm wrth nifer o'i gwaith gan ddisgrifio fel y bu iddi ddechrau gwneud ei dillad ei hun wrth ddechrau gweithio, creu blancedi a cwilitiau i'r plant, gan fynnu mai hi fyddai yn gwneud siol cyntaf ei wyrion.

Ac yna fe ddaeth at y gwaith y mai hi wedi eu gwneud dros y blynyddoedd diweddar, sydd yn bell iawn o waith y ferch fach flêr chwech oed . Dangosodd gwilt wedi ei wnïo a blanced wedi ei chrosio yn gelfydd - dyma'r gwaith y mae hi yn fwyaf balch ohonynt. Ond y mae ei dawn yn ymestyn o fagiau, yn aml yn cael eu gwneud o ddefnydd sydd wedi cael ei roi iddi, i'w diléit diweddar o grosio anifeiliad bach, sydd yn grefft arbennig o'r enw 'amigurumi'. Tydi hi ddim yn dilyn patrwm ond yn mynd ar 'youtube' i ddysgu ei hun, ond ma'r ddawn gynhenid yn disgleirio ymhob darn o waith y mae hi wedi ei greu.

Rhoddod gyfle i aelodau ddangos y gwaith yr oedden nhw wedi eu cwblhau yn yr ysgol a'r gingham a'r binca yn arddangos pwythau a ddysgwyd. Roedd yna liain bwrdd, bag i ddal coban, bagiau bach, a 'tray cloths'. Dros baned cawsom gyfle i gwblhau cwis yr oedd wedi ei baratoi ar ein cyfer. Diolchwyd iddi gan Anita am noson hyfryd, a pharatowyd y baned gan Liz, Deilwen ac Ann Lewis a Mary Evans a enillodd y raffyl.

Cawsom hefyd gyfle i ethol swyddogion a phwyllgor ar gyfer y tymor nesaf, a fydd yn dechrau ar eu gwaith dan lywyddiaeth Liz Watkin. Diolch i bawb am fod yn barod i dderbyn swyddi i sicrhau parhâd y gangen.